| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 77 – Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 |
| | **Cân y Morfil, Robin Llwyd ab Owain** |

'Pam,' ebe'r morfil
Wrth yr wylan wen
'Na fedrwn ni hedfan
I'r cwmwl uwchben?'
'Pam,' meddai'n dawel
Wrth y clogwyn serth,
'Na roddwyd i mi
Dy gadernid a'th nerth?'

'Pam gebyst,' medd ef
Wrth lygoden yr ŷd,
'Pam gebyst na chefaist
Dy daldra a'th hyd?'
'A pham' y gofynnodd
I'r gwynt uwch y lli,
'Na chefais anadlu
Dy ryddid di?'

'Pam, Pam,' ebe'r morfil
Wrth ddyn yr harpŵn,
'Mai coch fel y machlud
Ydy lliw'r lagŵn?'
'A pham fod dy ddwylo,
A dwylo pob dyn
Cyn goched?' ebe'r morfil -
Yr olaf un ...